The third sector meets the Ministers for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Representatives of third sector organisations had three items on the agenda to discuss with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (CELLS), and the Deputy Minister for Skills, at their autumn 2008 meeting – the future planning and funding of non-formal learning, the opportunities offered by Olympic 2012 for increasing physical activity in Wales, and the 2009-10 budget.

The third sector presented a paper on non-formal learning outlining the contribution of third sector organisations to this field and expressing concern about the emphasis put on skills, rather than learning, in the new proposals for Adult and Community learning (ACL).

The Deputy Minister stressed that in the current economic climate budgetary constraints would place limits on Assembly Government spending. The new ACL strategy aimed to produce a more rational policy framework by identifying duplication and creating added value. He stressed that the voluntary sector was an important partner in achieving these aims and said that WAG would make a detailed response to the points raised in the paper.

Third sector representatives then presented a paper on how the 2012 Olympics and Paralympics can be used to encourage an increase in physical activity, particularly in educational and young people's organisations. The Minister agreed that these provided an excellent opportunity and explained that her department was already looking at this. She suggested that the third sector representatives liaise with her officials.

Finally, the Minister was asked to introduce her priorities for 2009-10, the budget, and its implications for third sector organisations. She said that the budget would be tight and given the current economic context, the Chancellor's Pre-Budget Statement later today would impact on the Assembly Government's spending. The Minister's main priority was the Foundation Phase and extra funding had been secured from the reserves to support it. All Ministers were examining their policy priorities but the DCELLS budget had increased by 5.5% while other Departments had seen a 3.4% increase.

Money for disabled children was another Ministerial priority and additional funds had been allocated to disabled children programmes. The Minister also highlighted the innovative work that was taking place within DCELLS to identify children's budgets, across all WAG departments, in response to a UNHCR recommendation.

Third sector representatives asked that the Minister should also look at how budget allocations took account of the consequences of spending in one area on that of another area; what might be called 'lateral budgeting' e.g. tackling child poverty by providing parents with adult learning opportunities.

You can find copies of the all papers and minutes of ministerial meetings at

http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3
or
http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3&lang=cy

Y trydydd sector yn cyfarfod â'r Gweinidogion dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Roedd gan gynrychiolwyr mudiadau'r trydydd sector dair eitem ar yr agenda i'w trafod â'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS), a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, yn eu cyfarfod yn hydref 2008 – sef cynllunio ac ariannu dysgu anffurfiol yn y dyfodol, y cyfleoedd a gynigir gan Gemau Olympaidd 2012 ar gyfer cynyddu gweithgarwch corfforol yng Nghymru, a'r gyllideb ar gyfer 2009-10.

Cyflwynodd y trydydd sector bapur am ddysgu anffurfiol, a oedd yn amlinellu cyfraniad mudiadau'r trydydd sector at y maes hwn ac yn mynegi pryder ynghylch y pwyslais a roddir ar sgiliau, yn hytrach na dysgu, yn y cynigion newydd ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r cyfyngiadau ar y gyllideb, yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, yn lleihau gwariant Llywodraeth y Cynulliad. Nod y strategaeth newydd ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned oedd cynhyrchu fframwaith polisi mwy rhesymol drwy ddod o hyd i achosion o ddyblygu a chreu gwerth ychwanegol. Pwysleisiodd fod y sector gwirfoddol yn bartner pwysig ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn, a dywedodd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno ymateb manwl i'r pwyntiau a godwyd yn y papur.

Wedyn, cyflwynodd cynrychiolwyr y trydydd sector bapur am sut y gellir defnyddio Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 i annog mwy o weithgarwch corfforol, yn enwedig mewn mudiadau addysgol a mudiadau i bobl ifanc. Cytunodd y Gweinidog fod y gemau hyn yn gyfle gwych, ac esboniodd fod ei hadran eisoes yn ymchwilio i'r mater hwn. Awgrymodd y dylai cynrychiolwyr y trydydd sector gysylltu â'i swyddogion.

Yn olaf, gofynnwyd i'r Gweinidog gyflwyno ei blaenoriaethau ar gyfer 2009-10, y gyllideb, a'i goblygiadau i fudiadau'r trydydd sector. Dywedodd y byddai'r gyllideb yn dynn, ac yn y cyd-destun economaidd presennol, byddai Datganiad Rhag-gyllidebol y Canghellor yn nes ymlaen heddiw yn effeithio ar wariant Llywodraeth y Cynulliad. Prif flaenoriaeth y Gweinidog oedd y Cyfnod Sylfaen, ac roedd cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau o'r cronfeydd wrth gefn i'w gefnogi. Roedd yr holl Weinidogion yn archwilio eu blaenoriaethau polisi ond roedd y gyllideb ar gyfer PADGOS wedi cynyddu 5.5.%, tra roedd cynnydd o 3.4% wedi'i sicrhau i Adrannau eraill.

Roedd arian ar gyfer plant anabl yn flaenoriaeth arall i Weinidogion, ac roedd arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i raglenni ar gyfer plant anabl. Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd y gwaith arloesol a oedd yn cael ei wneud o fewn PADGOS i bennu cyllidebau ar gyfer plant, ar draws pob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, mewn ymateb i argymhelliad gan Uwch Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig.

Dywedodd cynrychiolwyr y trydydd sector y dylai'r Gweinidog hefyd edrych ar sut y bydd dyraniadau cyllideb yn ystyried sut y byddai gwario ar un maes yn effeithio ar y gwariant ar faes arall; sef yr hyn y gellid ei alw'n 'gyllidebu ochrol', e.e. mynd i'r afael â thlodi plant drwy roi cyfleoedd i oedolion i ddysgu.

Mae copïau o'r holl bapurau a chofnodion y cyfarfodydd â'r gweinidogion ar gael yn

http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3
neu